**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Emyr George
Prif Weithredwr
Adnodd Cyfyngedig

Emyr.George@adnodd.llyw.cymru

Ein cyf: MA/LN/0740/25

14 Ebrill 2025

Annwyl Emyr,

**Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau Adnodd yng Nghymru: 2025-26**

A Senedd Cymru bellach wedi cymeradwyo'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2025-26, mae'n bleser gennyf ddarparu manylion eich trefniadau cyllid.

Y setliad cyllido ar gyfer Adnodd yn 2025-26 fydd £4,502,500. Mae'r dyfarniad cyllid yn seiliedig ar setliad Cymorth Grant ariannol y gellir ei hawlio gan Lywodraeth Cymru ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Yn 2024-25, sefydlwyd grwpiau strategol a gweithredol o fewn Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg i weithio gydag Adnodd a'i gefnogi i gyflawni ei brif amcan o sicrhau adnoddau addysg dwyieithog er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau. Gallai hyn arwain at ymrwymiad i gyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Telerau ac Amodau'r Cyllid**
Disgwylir y bydd defnydd Adnodd o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer 2025-26 yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2023-26, fel y nodir yn eich llythyr cylch gwaith. Mae'r llythyr cylch gwaith a'r ddogfen fframwaith a ddyroddwyd i Adnodd yn nodi amrywiol ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r Llywodraeth y mae angen i Adnodd gydymffurfio â hwy, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Blaenoriaethau strategol Adnodd**

1. Datblygu Amcanion Corfforaethol Adnodd
2. Sicrhau bod adnoddau perthnasol, amserol a deunyddiau ategol ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ar yr un pryd, i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau
3. Darparu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau, gan sicrhau bod adnoddau a ddatblygwyd yn cyd-fynd ag ethos ac egwyddorion craidd Cwricwlwm i Gymru ac yn addas i'r diben
4. Datblygu'r hyrwyddo, yr ymwybyddiaeth a'r defnydd effeithiol o adnoddau.
5. Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a'r gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.

**Amcanion Corfforaethol**

Yn dilyn cylch recriwtio cychwynnol llwyddiannus, rwy'n fodlon bod Adnodd eisoes wedi dechrau cyflawni ei genhadaeth graidd o oruchwylio a chydlynu darpariaeth adnoddau addysgol o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg i gefnogi addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Eleni, rwy'n disgwyl i Adnodd gyhoeddi ei strategaeth a chyrraedd ei allu gweithredol llawn. Disgwylir y bydd Adnodd yn parhau i sicrhau llywodraethiant a gwasanaethau corfforaethol effeithiol, yn ogystal â chynnal gwefan gorfforaethol.

**Deall anghenion y system**

Fel rhan o waith Adnodd yn datblygu a chyhoeddi ei strategaeth yn 2025-26, mae angen golwg fwy cyfannol a strategol ar adnoddau a deunyddiau ategol ledled Cymru wrth symud ymlaen. Bydd yn allweddol parhau i nodi pa adnoddau perthnasol sydd eisoes ar gael, sut y cânt eu defnyddio, beth y gellir ei addasu neu ei ddiweddaru a beth sydd angen ei gomisiynu i fynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth. Fel sefydliad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ac a arweinir gan dystiolaeth, bydd yn hanfodol i Adnodd barhau i adeiladu ar y dystiolaeth sydd ganddo o anghenion defnyddwyr, adnoddau presennol a dulliau gweithredu newydd, a hynny mewn partneriaeth â rhanddeiliaid addysg eraill.

**Meysydd blaenoriaeth**

Gan gydnabod y posibilrwydd y bydd gwahanol anghenion yn dibynnu ar natur a chyfrwng iaith ysgolion, ymarferwyr a dysgwyr ledled Cymru, rwy'n disgwyl ffocws penodol ar lythrennedd, rhifedd, crefydd, gwerthoedd a moeseg, ac iechyd a lles yn 2025-26. Gellid ehangu hyn i gwmpasu meysydd eraill o'r Cwricwlwm i Gymru yn 2026-27 a thu hwnt.

**Parhad comisiynau 2024-25 a chomisiynau a ariennir yn 2025-26**

Oherwydd natur comisiynu adnoddau, nid yw prosiectau bob amser yn cael eu cwblhau o fewn un flwyddyn ariannol a gallent bara dwy flynedd neu ragor. Wrth i'r cyfnod trosiannol hwn barhau i 2025-26, bydd grantiau a chontractau a reolwyd cyn hyn gan Lywodraeth Cymru yn trosglwyddo i Adnodd i'w parhau neu eu cwblhau. Mae hyn yn sicrhau parhad yn y ddarpariaeth wrth i Adnodd ystyried sut y gellid cyflawni nodau'r rhaglenni yn y dyfodol.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, dylai Adnodd:

- Gwblhau prosiect Rhyngom ar gyfer llyfrau sy'n seiliedig ar amrywiaeth i helpu i ddatblygu empathi mewn dysgwyr, gan weithio â Chyngor Llyfrau Cymru
- Parhau i ariannu'r map rhyngweithiol i gefnogi dysgu am hanesion cymunedau Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan weithio gydag Atebol
- Parhau i ariannu grant BookTrust Cymru i ddarparu adnoddau darllen ar gyfer y blynyddoedd cynnar, oed cynradd a phlant sy'n derbyn gofal, wrth adolygu sut y gellid cyflawni nodau'r grant hwn o 2026-27 ymlaen.

- Gweithio â Chyngor Llyfrau Cymru i barhau i gyflwyno teitlau stori sydyn newydd yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Datblygu cynllun darllen dan arweiniad yn y Gymraeg i gefnogi dysgwyr ADY rhwng 7 a 12 oed, gan weithio â Chyngor Llyfrau Cymru i gyflawni'r cynllun yn 2026-27.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o addasu adnoddau Cwricwlwm i Gymru i fod yn hygyrch i ddysgwyr sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol, gan gynnwys dysgwyr hŷn yn eu harddegau.
- Darparu cefnogaeth i brosiect TANIO, gan weithio gydag Ysgol Eirias i gynnal y platfform gwyddoniaeth uwchradd dwyieithog ar gyfer y flwyddyn i ddod, wrth adolygu'r ddarpariaeth o adnoddau gwyddoniaeth yn y dyfodol
- Parhau i ddatblygu adnoddau llinell amser Hanes Cymru, i'w cwblhau o ddechrau 2026 ymlaen
- Yn unol â'r ymrwymiad yng nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i ddarparu adnoddau llesiant pwrpasol sy'n canolbwyntio ar anghenion y rhai o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, dechrau datblygu adnoddau sy'n cefnogi ysgolion yn eu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol a threfniadau cwricwlwm
- Cefnogi'r gwaith blynyddol o ddatblygu adnoddau dwyieithog yng nghyd-destun Cymru sydd wedi'u halinio â themâu wythnos gwrth-fwlio, gan weithio gyda'r Gynghrair Gwrth-fwlio
- Gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar ddatblygiad parhaus darpariaeth Gymraeg alwedigaethol ôl-16
- Cwblhau gwaith i sicrhau adnoddau ategol ar gyfer y pynciau TGAU (Ton 1) newydd cyntaf

**Meysydd blaenoriaeth eraill i'w hystyried o fewn y cynnig ariannu presennol**
Mae'r meysydd diddordeb canlynol wedi'u nodi i'w hystyried ymhellach a'u datblygu o bosibl yn 2025-26:

- Darparu offer rhifedd yn Gymraeg
- Ymgorffori rhifedd ym meysydd eraill y cwricwlwm
- Deunyddiau i helpu ymarferwyr (a dysgwyr) i ddeall elfennau sylfaenol llythrennedd
- Deunyddiau i gefnogi ymgorfforiad llythrennedd ar draws meysydd dysgu a phrofiad fel sgil drawsgwricwlaidd
- Adnoddau ar gyfer trochi hwyr yn y Gymraeg (ar gyfer dysgwyr oed ysgol uwchradd yn enwedig)
- Cefnogi adfywio adnoddau sy'n ymwneud ag undebau a'r byd gwaith, gan weithio gyda'r TUC

**Cynigion yn ystod y flwyddyn**
Yn ogystal, ac i'w hystyried yn ystod y flwyddyn, yn ystod tymor yr haf byddwn yn croesawu ystyriaethau Adnodd o ran adolygu a gwneud cynigion wedi'u costio ar gyfer cymorth TGAU pellach gyda phynciau 2026 (Ton 2) yn ogystal ag adnoddau atodol ar gyfer TGAU Ton 1 a Thon 2, ar y cyd â Cymwysterau Cymru a CBAC. Dylai hyn gynnwys y TGAU Hanes a Gwyddoniaeth newydd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Byddwn hefyd yn croesawu cynigion wedi'u costio ar gyfer darparu adnoddau ADY Cymraeg ychwanegol i'w gweithredu yn 2026-27, gan gynnwys sut y gellid symud ymlaen â'r gwaith i ddigido'r cod Braille Cymraeg ar y cyd â phrosiectau technoleg eraill.

**Mynediad teg at y Gymraeg**
Bydd Adnodd yn dymuno cynllunio rhywfaint o gapasiti i ymateb i'r angen parhaus am adnoddau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd lle y mae diffyg amlwg, a lle y mae argaeledd deunydd Saesneg yn cael effaith. Mae hyn yn cynnwys y meysydd blaenoriaeth a nodir uchod.

**Arloesi**
Yn unol â blaenoriaethau strategol Adnodd, rhan hanfodol o fodel gweithredu Adnodd fydd darparu cyllid cychwynnol i sbarduno ymarferwyr a chyflenwyr i gynhyrchu a datblygu syniadau ar gyfer adnoddau. Dylid neilltuo cyllid i sefydlu cronfa Arloesi fach i ddatblygu sgiliau a chapasiti wrth greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru.

**Sicrhau Ansawdd**
Dylid parhau'r gwaith a wnaed yn 2024-25 i ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau a ddatblygir yn cydweddu ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru ac yn addas i'r diben. Dylai'r gwaith parhaus hwnnw gynnwys sefydlu cronfa o adolygwyr, arbenigwyr ac ymarferwyr a allai hefyd gyfrannu at adolygu a gwerthuso'r adnoddau presennol er mwyn helpu i lywio a chyfeirio cynlluniau comisiynu Adnodd.

**Tîm Partneriaeth Adnodd**
O 2025-26, bydd tîm partneriaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm ac Asesu a'ch pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm fydd y Pennaeth Cyflawni Polisi. Bydd cyfarfodydd gyda'ch tîm partneriaeth yn cael eu cynnal i gytuno ar drefniadau goruchwylio a monitro priodol. Bydd Tîm Partneriaeth Llywodraeth Cymru yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â chydweithwyr o Adnodd fel y nodir yng Nghytundeb Fframwaith Adnodd. Dylid hawlio cyllid gan ddefnyddio'r dogfennau perthnasol a ddarperir gan y Tîm Partneriaeth.

Edrychaf ymlaen at weithio gydag Adnodd a dilyn eich cynnydd yn ystod y flwyddyn.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg